


BRIFF POLISI CLWSTWR RHIF 2

# QUO VADIS, NEWYDDIADURAETH? FFYRDD NEWYDD O ADRODD STRAEON

CANFYDDIADAU PROSIECT CLWSTWR AR ADRODD STRAEON MEWN NEWYDDION AR-LEIN

Shirish Kulkarni, Richard Thomas,
Marlen Komorowski a Justin Lewis
Chwefror 2021

## YNGLŶN Â'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd sydd â'r nod o roi arloesedd wrth wraidd y broses o gynhyrchu cyfryngau yn ne Cymru, gan symud sector sgrin llewyrchus Caerdydd o gryfder at arweinyddiaeth. Mae Clwstwr yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant de Cymru o ran creu cynnwys creadigol drwy roi ymchwil a datblygu wrth wraidd y broses gynhyrchu.

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â:


CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 02922 511434
Ebost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

# CRYNODEB

MAE NEWYDDIADURAETH PRIF FFRWD MEWN ARGYFWNG DIRFODOL SY'N PERYGLU YSTAFELLOEDD NEWYDDION, SEFYDLIADAU'R CYFRYNGAU A, THRWY HYNNY, NATUR AC ANSAWDD Y WYBODAETH FYDD AR GAEL I DDINASYDDION. MAE'R BRIFF POLISI HWN YN YMCHWILIO I SUT GELLID YSBRYDOLI NEWYDDIADURAETH SY'N ADDAS AR GYFER Y DYFODOL DRWY GREU FFYRDD NEWYDD O ADRODD STRAEON.

Mae'r Briff Polisi hwn wedi'i adeiladu ar ganfyddiadau prosiect a ariannwyd gan Clwstwr, sy'n defnyddio data a gasglwyd gan grwpiau ffocws, datblygu prototeipiau arloesol a phrofion defnyddwyr helaeth gyda dros fil o aelodau cynulleidfa. Drwy ganolbwyntio ar gynnwys sy'n wirioneddol ddefnyddiol i ddarllenwyr a gwylwyr, gan ddefnyddio naratifau llinol, darparu cyd-destun ehangach, a rhoi mwy o rym i ddefnyddwyr o ran y ffordd maen nhw'n ymgysylltu â straeon, canfuwn ei bod hi'n amlwg yn bosib darparu newyddion y mae modd ymddiried ynddo, sy'n addysgiadol, ac sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd o bob demograffeg. Mae'r Briff Polisi hwn yn cyflwyno saith bloc adeiladu ar gyfer newyddiaduraeth fyfyriol, ac yn awgrymu sawl ffordd newydd o adrodd straeon naratif sy'n arwain y ffordd at ffurfiau o newyddion sy'n fwy effeithiol.

Sylwer: Fersiwn cyn ei chyhoeddi o erthygl academaidd yw'r Briff Polisi hwn, sydd wrthi'n cael ei hadolygu i'w chyhoeddi.

## Cyflwyniad i'r Briff Polisi

### A yw newyddiaduraeth mewn argyfwng ac angen newid?

Mae newyddiaduraeth prif ffrwd yn profi argyfwng aml-haenog sy'n peryglu ystafelloedd newyddion, sefydliadau'r cyfryngau, a thrwy hynny, natur ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i ddinasyddion yn y dyfodol.

Ar un llaw, *mae'n amlwg bod datblygiadau technolegol wedi creu heriau newydd ar gyfer newyddiaduraeth.* Mae pobl yn cael mynediad at y newyddion drwy blatfformau ar-lein yn gynyddol, yn hytrach nag ar ffurf argraffedig, ar y radio neu'r teledu. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos cynulleidfaoedd iau – pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed – sydd bellach yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd i gael y newyddion yn hytrach na'r teledu[1]. Gyda darllenwyr a hysbysebwyr yn symud at ffynonellau ar-lein (lle mae refeniw hysbysebu yn llawer is), mae'r refeniw sydd ei angen i gynhyrchu newyddion o ansawdd wedi lleihau. Mae hyn wedi arwain at wasanaethau newyddion lleol yn cau ar raddfa eang, gyda llai o newyddiadurwyr yn cynhyrchu mwy o gynnwys, a dibyniaeth gynyddol ar asiantaethau newyddion, hysbysebion golygyddol, a Chysylltiadau Cyhoeddus.[2]

Mae'r tuedd hwn yn digwydd ochr yn ochr â chwymp mewn *ymddiriedaeth mewn sefydliadau newyddion prif ffrwd – er bod yr angen am newyddion gwasanaeth cyhoeddus dibynadwy yn fwy nag erioed*. Yng ngwledydd Prydain, dim ond 28% o bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu ymddiried yn y rhan fwyaf o newyddion y rhan fwyaf o'r amser, a dim ond 39% o bobl sy'n ymddiried yn y newyddion maen nhw'n ei ddefnyddio[3]. Mae hyn yn adlewyrchu (ac yn aml yn cael ei yrru gan) newidiadau yn y tirlun gwleidyddol byd-eang a'r disgwrs cyhoeddus .

Mae'r diffyg ymddiriedaeth yn y cyfryngau traddodiadol yn creu ffurf ar berthynoliaeth, lle mae pob ffynhonnell wybodaeth – waeth beth yw ei tharddiad – yn cael ei hystyried yn gyfwerth. Mae rhwystrau rhag mynediad

---

[1] Gweler: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0013/201316/news-consumption-2020-report.pdf Ffigur 2.3
[2] Gweler: https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/14616700701767974
[3] Gweler: https://www.digitalnewsreport.org/survey/2020/united-kingdom-2020/

yn llawer is nag oedden nhw, sydd wedi arwain at farchnad sy'n llawer mwy rhanedig, ynghyd â syniadau yr un mor rhanedig o beth yw ansawdd. Byddai modd i ddarn o newyddiaduraeth sy'n seiliedig ar waith ymchwil manwl gael ei weld fel gwaith o'r un statws â datganiad di-sail o ffynhonnell amheus.

Yn drydydd, mae'r cwestiynu a ddaeth o ganlyniad i ymgyrch Mae Bywydau Duon o Bwys wedi arwain, mewn rhai cylchoedd o leiaf, at gydnabyddiaeth betrus bod *y diwydiant wedi methu'n systematig i adlewyrchu, deall a chynrychioli amrywiaeth y boblogaeth* ar draws nid yn unig hil, ond rhywedd, dosbarth, anabledd, rhywioldeb a daearyddiaeth hefyd. Un rheswm dros hyn yw nad yw'r diwydiant ei hun yn amrywiol[4], ac mae hyn wedi golygu bod safbwynt penodol o'r byd (sy'n bennaf yn wyn, yn wrywaidd, ac wedi'i addysgu'n breifat yn gynyddol[5]) wedi dominyddu penderfyniadau golygyddol ac adrodd straeon, gan yrru pa straeon sy'n cael eu blaenoriaethu a sut maen nhw'n cael eu hadrodd.

Yn syml, dyma'r broblem gyffredinol – yn rhy aml, *mae'r straeon anghywir yn cael eu hadrodd, a hynny yn y ffordd anghywir, a gan y bobl anghywir.* Yn yr amgylchiadau hyn, yn aml nid yw llawer o ddinasyddion yn ystyried bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gan newyddiaduraeth newyddion, sy'n eu harwain i'w hanwybyddu neu i chwilio am opsiynau eraill, boed hynny'n ffynonellau gwahanol neu ar blatfformau gwahanol.

Yn gyffredinol, ymateb newyddiaduraeth yw edrych ar ddatrysiadau technolegol yn hytrach nag ystyried y cwestiynau systemig a diwylliannol ehangach ynghylch natur a diben y newyddion. Mae newyddiaduraeth yn dueddol o ddibynnu ar syniadau 'greddfol' – sy'n seiliedig ar draddodiadau sydd wedi'u hen sefydlu – i lywio penderfyniadau golygyddol. Yn aml mae arloesedd mewn *newyddiaduraeth wedi diwallu anghenion a buddiannau newyddiadurwyr, yn hytrach na chynulleidfaoedd* (heblaw mewn ffordd arwynebol). Mae'r problemau a ddisgrifir yma yn rhai difrifol ac sydd wedi'u

---

[4] Gweler: http://womeninjournalism.co.uk/wp-content/uploads/2020/09/Press-Release-WIJ-2020-research.pdf

[5] Gweler: https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2020/01/Leading-People_Feb16.pdf

gwreiddio'n ddwfn, ac mae'n bosib bod angen newid llawer mwy radicalaidd – gan ein gorfodi ni i archwilio'r hanfodion o ran beth yw newyddion, ac ar gyfer pwy y mae.

NOD Y BRIFF POLISI HWN YW AWGRYMU BLOCIAU ADEILADU AR GYFER MODELAU NEWYDD O NEWYDDIADURAETH, A CHYFLWYNO YMCHWIL I FFYRDD NEWYDD O GYFLWYNO STRAEON NEWYDDION. YN EI DRO, RYDYN NI AM GEISIO DANGOS Y FFORDD AT FFURFIAU NEWYDD O ADRODD STRAEON SYDD YN FWY YMGYSYLLTIOL AC YN WIRIONEDDOL ADDYSGIADOL.

## Cyfyngiadau newyddiaduraeth draddodiadol

Caiff yr ymagwedd fformiwläig tuag at newyddiaduraeth ei gweld yn y *strwythur a elwir yn "byramid gwrthdro", sef dull o ysgrifennu newyddion sy'n trefnu ffeithiau mewn trefn ddisgynnol o bwysigrwydd (gweler y ffigur)*. Dyma yw conglfaen newyddiaduraeth, a'r pyramid gwrthdro yw'r brif ffordd o ysgrifennu straeon "newyddion caled" yn dal i fod.[6]




Darparwyd rhai ffurfiau cynharach o newyddiaduraeth mewn ffordd debyg i, er enghraifft, straeon tylwyth teg — gan ddechrau o'r dechrau, "Amser maith yn ôl..." a mynd ymlaen at ddiwedd boddhaol. *Cyflwynwyd yr arddull pyramid gwrthdro, yn rhannol, mewn ymateb i broblemau technolegol ac ymarferol wrth ddosbarthu newyddion yn ystod twf papurau newydd yn y 19eg ganrif*. Roedd yn bodloni'r darllenwyr a'r golygyddion – roedd modd i ddarllenwyr ddarllen erthyglau ar wib, gan ddeall prif elfennau stori yn yr ychydig linellau cyntaf, ac roedd y diffyg naratif llinol yn caniatáu i olygyddion dorri'n hawdd o'r gwaelod i fyny, gan wybod i sicrwydd y byddai'r erthygl yn dal i wneud synnwyr. Creodd technolegau fel y

[6]Gweler: Norambuena, B. K., Horning, M., a Mitra, T. (2020). Evaluating the Inverted Pyramid Structure through Automatic 5W1H Extraction and Summarization. 1–7.

telegraff ofyniad tebyg i sicrhau bod y wybodaeth allweddol yn cael ei blaenoriaethu.[7]

Er gwaetha'r ffurfiau newydd o ddosbarthu newyddion a ddatblygwyd yn ystod y ganrif ddiwethaf – y radio, y teledu ac ar-lein – arhosodd y traddodiad hwn. Mae presenoldeb enbyd traddodiad wedi'i ysgythru yn yr iaith rydyn ni'n ei defnyddio – rydyn ni, er enghraifft, yn dal i ddisgrifio asiantaethau newyddion fel yr Associated Press neu Reuters fel "gwasanaethau gwifren". Prin y caiff y rhagdybiaeth mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac ymgysylltiol o gyfathrebu gwybodaeth ei chwestiynu. Os daeth yr arddull pyramid gwrthdro mewn ymateb i newid hanfodol mewn dulliau dosbarthu, mae ei ddefnydd ym maes newyddion darlledu yn llai diriaethol, *tra bod y trawsnewid technegol, cymdeithasol a diwylliannol a ddaw gyda chyfathrebu ar-lein yn creu cyfleoedd i ddychmygu mathau newydd o newyddion.*

## Nodyn methodolegol

Mae'r Briff Polisi hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau prosiect ymchwil Clwstwr, "Adrodd y Newyddion drwy Newyddiaduraeth Fodiwlaidd" a gynhaliwyd yn 2020. Defnyddiodd awduron yr adroddiad hwn ymagwedd dau gam â dulliau cymysg. Yn gyntaf, casglwyd data ansoddol o gyfres o weithdai ac ymgyngoriadau â rhanddeiliaid er mwyn datblygu nifer o egwyddorion a allai gefnogi ymagwedd sy'n canolbwyntio'n fwy ar y defnyddiwr wrth adrodd straeon newyddion. Datblygwyd y rhain yn gyfres o "brototeipiau" newydd o adrodd straeon newyddion ar-lein. Yna dadansoddwyd apêl a defnyddioldeb cyffredinol y prototeipiau hyn gan ddefnyddio profion cynulleidfa graddfa fawr (N=1268), gan gymharu'r prototeipiau hyn a oedd newydd eu datblygu gydag arddull pyramid traddodiadol y newyddion. Cysylltwch â ni drwy clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk i ddysgu mwy am y fethodoleg.

[7] Gweler Pöttker, H. (2003). News and its communicative quality: The inverted pyramid—When and why did it appear? *Journalism Studies*, 4(4), 501–511.

## Blociau adeiladu newyddiaduraeth fyfyriol ar gyfer y dyfodol

Un ffordd o oresgyn yr heriau presennol sy'n wynebu newyddiaduraeth yw addasu a newid y ffordd y caiff y newyddion ei adrodd. Aethom ati i gyfosod cam cyntaf ein hymchwil yn *saith bloc adeiladu ar gyfer newyddiaduraeth fyfyriol.* "Myfyriol" gan ein bod ni'n credu eu bod nhw'n cynrychioli ymagwedd feddylgar, ystyrlon, a bwriadus tuag at newyddiaduraeth, a hefyd gan mai'r nod yw adlewyrchu realiti bywyd darllenwyr, yn hytrach nag adlewyrchu normau'r diwydiant yn unig.

**(1) NARATIF:** Mae'r egwyddor drosfwaol hon yn cynrychioli'r awgrym symlaf a'r mwyaf radical dros newid. Nid yw'r strwythur pyramid gwrthdro yn effeithiol wrth ysbrydoli ymgysylltiad neu ddiddordeb am nifer o resymau. Ar lefel sylfaenol, mae cyflwyno'r wybodaeth allweddol yn y pennawd neu yn y dau neu dri paragraff cyntaf yn cymell y darllenwr i ddarllen ar wib, yn hytrach nag ymgysylltu â stori. Yn bwysicach na hynny, mae'r pyramid gwrthdro yn gwrthdaro gyda'r ffordd rydyn ni wedi'n cyflyru – ar lefel niwrowyddonol ac anthropolegol – i ddeall a dilyn straeon. Mae'n bosib y byddai datblygu ffurfiau naratif mwy llinol – a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o ffurfiau eraill o adrodd straeon – yn fwy diddorol ac addysgiadol.

**(2) CYNNWYS:** Mae syniadau traddodiadol o ran pa gynnwys newyddion sy'n ddefnyddiol neu'n addysgiadol yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan arfer a chonfensiwn, yn hytrach na dadansoddiad neu ddiddordeb mewn gwybodaeth y gallai dinasyddion ei hystyried yn ddefnyddiol er mwyn deall y byd. Er enghraifft, ystyrir bod adrodd am droseddau unigol sy'n 'haeddu sylw' yn rhan sylfaenol o'r newyddion, er bod ymchwil yn dweud wrthon ni dro ar ôl tro bod hyn yn *gweithio yn erbyn* dealltwriaeth o'r byd troseddol neu lefelau risg. Yn yr un modd, wrth drafod penderfyniadau economaidd rydyn ni'n diffinio "manteisiol" ar sail termau ariannol unigol yn unig, yn hytrach nag edrych ar effeithiau cymdeithasol ehangach. Gallai ymagwedd fwy ystyrlon a bwriadus tuag at beth sy'n cyfrif fel newyddion neu wybodaeth ddefnyddiol arwain at atebion diddorol o ran sut beth fyddai ymagweddau gwahanol tuag at newyddiaduraeth.

**(3) CYD-DESTUN:** Un thema barhaus a welwyd yn ein hymchwil oedd y galw ar y newyddion i ddarparu mwy o gyd-destun wrth adrodd y newyddion. Mae newyddion prif ffrwd yn dueddol o flaenoriaethu newyddion sy'n torri neu sy'n "symud", ond mae hynny yn aml ar draul cyd-destun, dadansoddiad neu ddealltwriaeth. Prin y bydd *pam* mae stori'n bwysig yn cael ei gyfleu, na chwaith beth yw ei *lle* mewn cyd-destun mwy. Mae'r rhan fwyaf o straeon newyddion yn cynnwys llawer o ragdybiaethau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth y gynulleidfa, sy'n rhwystro llawer rhag ymgysylltu. Roedd y ffocws ar newyddion sy'n torri – neu, yn wir, straeon newyddion mawr a pharhaus lle roedd rhagdybiaeth bod gan y darllenwr ddealltwriaeth flaenorol ohonynt – yn teimlo'n ddryslyd i gynulleidfaoedd

nad oeddent yn darllen y newyddion bob dydd, ac oedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i fan cychwyn dealladwy.

**(4) GRYM:** Dywedodd derbynwyr newyddion ac arbenigwyr adrodd straeon wrthon ni bod grym yr un mor bwysig ar ochr mewnbwn ac ochr allbwn newyddion. Siaradodd adroddwyr straeon ynghylch y ffordd maen nhw'n gweithio i drosoli ein synnwyr cynhenid o chwilfrydedd er mwyn gyrru ymgysylltiad stori a pha mor gofiadwy ydyw. Gallai newyddiadurwyr ddefnyddio technegau tebyg i alluogi defnyddwyr i fynegi eu chwilfrydedd ac i fynd ati i ymgysylltu'n fwy gyda straeon.

**(5) TÔN:** Un o'r prif ganfyddiadau a gafwyd o weithdy gynhalion ni gyda phobl ifanc oedd bod y llais y mae cyfryngau newyddion traddodiadol yn ei ddefnyddio i gyfathrebu yn cael ei ystyried yn "hen ffasiwn" ac yn "fformiwläig". Mae hyn yn gyson ag Adroddiad Newyddion Digidol Reuters (2019) a ganfu mai dim ond 16% o ddefnyddwyr byd-eang oedd yn cytuno bod "cyfryngau'r newyddion yn defnyddio'r tôn cywir"[8]. Mae angen i newyddiadurwyr ddod o hyd i ffordd fwy priodol o siarad gyda derbynwyr newyddion mewn ffurfiau mwy modern, yn hytrach na dibynnu ar arferion sy'n deillio o ysgrifennu papurau newydd.

**(6) AMRYWIAETH:** Nid adrodd straeon mewn ffordd wahanol yn unig yw arloesedd ym maes adrodd straeon, ond mae hefyd angen adrodd gwahanol straeon. Er mwyn cael y straeon hynny, mae angen i newyddiadurwyr wrando ar wahanol safbwyntiau a'u hadlewyrchu yn eu cyfrifon nhw o'r byd. Nid cyfres grand o *vox pops* yw hyn: mae'n rhaid i newyddiaduraeth ymwneud ag adlewyrchu a hyrwyddo amrywiaeth o brofiadau. Fel enghraifft syml, does gan dros hanner darlledwyr "cenedlaethol" y Deyrnas Unedig ddim gohebydd yng Nghymru, ac mae hyn yn wir am fwy fyth o'r papurau newydd "cenedlaethol".[9] Mae hyn yn datgan yn glir nad yw Cymru a'r Cymry yn bwysig iddyn nhw, ond eto maen nhw'n disgwyl i bobl yng Nghymru ymddiried ynddyn nhw ac ymgysylltu â nhw.

**(7) TRYLOYWDER:** Er mwyn mynd i'r afael â phroblem ddirfodol ymddiriedaeth, mae angen i newyddiadurwyr fod yn dryloyw ynghylch yr hyn maen nhw'n adrodd arno, sut maen nhw'n cael y wybodaeth, a chydnabod bylchau mewn gwybodaeth lle maent yn bodoli. Heb y tryloywder penodol hwnnw, mae lle i ddrwgweithredwyr lenwi'r bylchau a gweld neu awgrymu cynllwyn pan nad oes un.

---

[8] Gweler: https://www.digitalnewsreport.org/survey/2019/what-do-people-think-about-the-news-media/


[9] Gweler: https://www.pressgazette.co.uk/nationals-not-covering-news-in-wales-new-report-claims/

WRTH WRAIDD POB UN O'R EGWYDDORION HYN MAE *ANGHENION DERBYNWYR Y NEWYDDION.* MAE'R EGWYDDORION HYN YN ANNOG NEWYDDIADURWYR I DDEFNYDDIO YMAGWEDD FWY YSTYRLON A LLAI FFORMIWLÄIG I'R HYN SY'N CYFRIF FEL "CYNNWYS". MAE HYN YN AGOR CYFLEOEDD I FANTEISIO AR YR HYBLYGRWYDD A'R TWF Y MAE NEWYDDIADURAETH AR-LEIN YN EI ALLUOGI, AC I ARLOESI'N FWY UNIONGYRCHOL ER BUDD DINASYDDION.

## Prototeipiau adrodd straeon newyddion ar-lein

*Defnyddion ni'r saith bloc adeiladu hyn i greu cyfres o wahanol brototeipiau ar gyfer adrodd straeon newyddion.* Defnyddiai pob un o'r prototeipiau arddull naratif llinol, ac roeddent yn mynd i'r afael â'r cynnwys gydag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac ar y cwestiwn "beth sydd angen ei wybod arna i?" .

**(A) ACORDION NARATIF:** Galluogai'r prototeip hwn gynulleidfaoedd i wneud penderfyniadau ynghylch sut i ddarllen y stori. Mae'n adrodd y stori mewn naratif llinol, ond wedi'i wahanu gan gwestiynau sy'n ymestyn ac yn lleihau. Mae modd i'r defnyddiwr ddewis darllen y cwestiynau hyn o'r dechrau i'r diwedd, gan weithio drwy'r naratif mewn modd llinol a syml. Serch hynny, mae modd iddyn nhw ddewis mynd drwy'r cwestiynau ym mha bynnag drefn sydd orau ganddynt hefyd.




**(B) TESTUN PLAEN DRAMATIG:** Dyluniwyd y stori hon i brofi'n uniongyrchol beth yw gwerth yr arddull naratif llinol – yn hytrach na'r pyramid gwrthdro. Mae wedi'i hysgrifennu mewn testun plaen, gan ddefnyddio strwythur naratif tair rhan fel y byddech yn ei weld mewn nofel neu ar y llwyfan. Dyluniwyd hwn i dynnu'r darllenwr drwy'r stori mewn arddull naratif llinol, ond gydag ymdeimlad o "gymeriad", "dilema" a "datrysiad".




**(C) FIDEO ANFFURFIOL:** Dyluniwyd y fideo hwn i brofi ymatebion i dôn anffurfiol a mwy chwareus, er mwyn gweld sut roedd hyn yn effeithio ar ymgysylltiad, trosglwyddiad gwybodaeth, a'r gallu i gofio gwybodaeth. Gan ddefnyddio ymdriniaeth sy'n deillio o arddull rhaglenni fel The Daily Show neu'r Patriot Act with Hasan Minhaj, mae'r fideo'n adrodd y stori mewn ffordd systematig ond



chwareus, ac mae wedi'i ddylunio i gael ei wylio o'r dechrau i'r diwedd.

**(D) LLINELL AMSER GYD-DESTUNOL:** Dyluniwyd y fformat hwn i ganolbwyntio ar osod y stori mewn cyd-destun. Roedd y stori'n ceisio dad-flaenoriaethu'r digwyddiad "ar y dydd", ac yn lle hynny, yn defnyddio safbwynt llawer ehangach a hydredol, gan gynnig llawer mwy o bwyntiau mynediad i'r defnyddiwr. Mae'r llinell amser yn edrych ymlaen ynghyd ag yn ôl, gan roi syniad o'r hyn allai ddigwydd nesaf i'r darllenwr, ynghyd â'r hyn sydd eisoes wedi digwydd.




Roedd ein prototeipiau hefyd yn ceisio darparu ymagwedd gyd-destunol ehangach, gan roi llai o bwysau ar ddigwyddiadau ar ddiwrnod penodol, a mwy o bwyslais ar y darlun ehangach. Roedd tri neu bedwar prototeip yn galluogi'r defnyddiwr i ddewis sut roedden nhw'n derbyn y stori ac yn llywio'r cynnwys. Mae'n anodd ynysu neu gategoreiddio newidiadau mewn tôn, ond y dull cyffredinol oedd ysgrifennu'r straeon mewn modd syml a chlir, gan gyfyngu ar y defnydd o iaith newyddiadurol ac osgoi gormod o ragdybiaethau.

## ASTUDIAETH ACHOS

Roedd yr holl brototeipiau yn ymdrin â'r un stori – penderfyniad y llywodraeth i fwrw ati gyda datblygu'r cyswllt rheilffordd cyflymder uchel HS2 a gyhoeddwyd ar 11 Chwefror 2020 (gweler y ffigur)[10]. Fel stori â chyd-destun eang ac effaith bellgyrhaeddol a oedd wedi datblygu dros amser, roedd hi'n addas ar gyfer yr ymarferiad hwn. *Profwyd y prototeipiau yn erbyn ei gilydd, ond hefyd yn erbyn erthygl wreiddiol Newyddion y BBC a ddefnyddiwyd fel enghraifft o'r dull*




[10] Gweler https://www.bbc.co.uk/news/business-51461597

*safonol o ysgrifennu newyddion* (ac a oedd yn debyg i ddulliau a ddefnyddiwyd gan ITV News neu Sky News).

Recriwtiwyd 1,204 o bobl (gweler tabl 1) i edrych ar y prototeipiau – rhannwyd sampl yn bump grŵp (gyda phroffiliau demograffig tebyg) i edrych ar bob prototeip, gyda grŵp rheoli yn edrych ar fersiwn y BBC. Gofynnon ni gwestiynau cyn ac ar ôl er mwyn gweld beth oedden nhw wedi'i ddysgu (gan ein galluogi ni i weld i ba raddau roedd y stori'n ychwanegu at lefelau dealltwriaeth pobl) ac i asesu'r eitemau newyddion yn erbyn nifer o fesurau. Gwnaeth pob cyfranogydd hunanasesiad o'u lefelau gwybodaeth am y newyddion yn gyffredinol ar raddfa 10 pwynt – fel mae tabl 1 yn ei ddangos, mae lefelau hyder yn dueddol o gynyddu gydag oedran.

Tabl 1: Demograffeg ymatebwyr yr arolwg a dadansoddiad o'r hunanasesiad o ba mor wybodus roedd y cyfranogwyr yn ystyried eu hunain.

| **Ystod oedran** | O dan 24 oed | 25-34 oed | 35-44 oed | 45-54 oed | 55+ oed | Cyfanswm yn ateb y cwestiwn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiad Oedran** | 23.5% (250) | 35.5% (378) | 22.2% (236) | 10.8% (115) | 8.0% (85) | 100.0 % (1064) |
| **Oedran cyfartalog yr ymatebwyr** | 20.9 | 29.1 | 38.9 | 49.5 | 61.8 | 34.1 |
| Pa mor wybodus maen nhw'n teimlo am newyddion? | 6.34 | 6.48 | 6.83 | 6.84 | 7.26 | 6.63 (1204) |

# Ble allai neu ddylai newyddiaduraeth fynd?

CANFUON NI FOD FFURFIAU LLINOL ARLOESOL O ADRODD STRAEON – SYDD PRIN YN CAEL EU DEFNYDDIO YN Y NEWYDDION – YN FWY EFFEITHIOL WRTH DROSGLWYDDO GWYBODAETH, AC YSTYRIWYD EU BOD NHW'N FWY YMGYSYLLTIOL, CYFLEUS A DEFNYDDIOL NA STRWYTHURAU NEWYDDION TRADDODIADOL.

## Ein canfyddiadau

Cyn profi ein prototeipiau, roedden ni'n ymwybodol o faint yr her. Nid yn unig roedd ein prototeipiau arbrofol yn anghysuro rhagdybiaethau'r gynulleidfa, ond roeddent hefyd yn cael eu cymharu â darparwr newyddion mwyaf poblogaidd a pharchus y Deyrnas Unedig. Yn y cyd-destun hwn, cawsom ein synnu gan ba mor effeithiol roedd rhai o'r prototeipiau (un yn benodol) wrth

ddarparu *mwy o wybodaeth, mewn amser byrrach, mewn ffyrdd a oedd yn fwy ymgysylltiol a dymunol na fersiwn y BBC*. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn arbennig o gryf ymhlith cynulleidfaoedd iau (sy'n amlwg yn ffocws allweddol i sefydliadau newyddion), ond yn gyffredinol roeddent yn gadarnhaol ar draws pob demograffeg – sy'n awgrymu datrysiadau cyffredinol. *Mae manteision clir i ysgrifennu llinol, yn hytrach na naratifau ar arddull pyramid gwrthdro.* Mae'r canfyddiadau am werth y prototeipiau newydd wedi'u crynhoi yn nhabl 2.[11]

Tabl 2: Y "gwerth ychwanegol" a ddarparwyd gan bob prototeip.

| N | Atebodd 552 o gyfranogwyr y ddau gwestiwn. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Fersiwn y BBC** | **(a) Acordion Naratif** | **(b) Testun Plaen Dramatig** | **(c) Fideo Anffurfiol** | **(d) Llinell Amser Gyd-destunol** |
| **O dan 24 oed** | 2.65 | 3.85 | 2.54 | 2.32 | 1.62 |
| **25-34 oed** | 2.20 | 3.41 | 2.72 | 1.63 | 1.72 |
| **35-44 oed** | 2.32 | 2.53 | 1.99 | 1.74 | 1.65 |
| **45-54 oed** | 2.48 | 2.00 | 2.25 | 2.08 | 1.48 |
| **55+ oed** | 2.18 | 3.10 | 1.12 | 0.99 | 2.29 |
| **Cyfartaledd** | **2.38** | **2.96** | **2.23** | **1.84** | **1.48** |

Er enghraifft, pan ofynnon ni i'r ymatebwyr faint yn fwy gwybodus roedden nhw'n ei deimlo ar ôl darllen neu edrych ar ein prototeipiau, *darparodd y fformat Acordion Naratif 24.3% yn fwy o werth ychwanegol i ddarllenwyr na fersiwn y BBC* (sgôr gwerth ychwanegol o 2.96 o gymharu â 2.38). Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y grŵp o dan 24 oed; yn eu hachos nhw roedd yr Acordion Naratif yn darparu 45.2% yn fwy o werth ychwanegol na fersiwn y BBC (3.85 yn erbyn 2.65). Yn ôl y mesuriad hwn, roedd hi'n amlwg mai dyma oedd y prototeip a berfformiodd orau, ac roedd ganddo apêl a gwerth penodol i gynulleidfaoedd iau.

Mae Tabl 2 hefyd yn dangos ymatebion sy'n gymharol benodol i oedran. Er enghraifft, roedd hi'n nodedig bod y grŵp dros 55 oed yn ystyried nad oedd y fideo anffurfiol o ddefnydd, ond nhw oedd yn gwerthfawrogi'r prototeip llinell amser gyd-destunol fwyaf.

Waeth pa mor addysgiadol yw erthygl pan ofynnir i bobl edrych arni, mae'n annhebygol o gael ei darllen/ei gweld os nad yw pobl yn meddwl ei bod hi'n apelgar. Felly, gofynnon ni gyfres o gwestiynau i gyfranogwyr ynghylch eu hymatebion affeithiol – pa mor ddiddorol neu ddefnyddiol oedd y

[11] Sylwer: Mae'r N ar y tablau yn yr adroddiad hwn yn amrywio. Mae hyn gan na wnaeth pob cyfranogwr ateb pob cwestiwn. Mae'r canrannau dilynol felly wedi'u cyfrifo ar sail nifer y bobl a atebodd y cwestiynau, ac mae'r N wedi'i nodi ar gyfer pob tabl.

prototeipiau, faint roedden nhw'n eu mwynhau ac acti. Drwy gyfuno'r canlyniadau hynny, *canfuon ni mai'r Acordion Naratif oedd y stori destun fwyaf llwyddiannus yn gyffredinol o bell ffordd, gan sgorio dwywaith cymaint o bwyntiau â'r dewis testun agosaf.*

Rhoddodd yr ymatebwyr sgôr uchel i'r prototeip Testun Plaen Dramatig am fod yn "ddiddorol" a "dymunol", gyda defnyddwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'w ddefnydd o iaith. Roedd hefyd yn cael ei ystyried fel yr un *mwyaf* addysgiadol, gyda defnyddwyr yn adrodd ei fod wedi cynyddu eu hyder a'u dealltwriaeth o'r pwnc. Gan ystyried bod y rhain yn amlwg yn amcanion allweddol ym maes newyddiaduraeth, mae'n werth nodi mai'r hyn sy'n "arloesol" am y stori hon, yn syml, yw bod ganddi naratif syml a llinol. Mae'r ffaith ei bod hi'n bodloni anghenion defnyddwyr mor dwt, gyda fawr ddim ymyrraeth olygyddol neu dechnegol, yn arbennig o arwyddocaol.

Gwnaeth y Fideo Anffurfiol yn dda hefyd ar y cyfan, o ran pa mor ymgysylltiol, diddorol a pherthnasol roedd defnyddwyr yn ei ganfod. Yn achos defnyddwyr yr oedd yn well ganddynt dderbyn y newyddion yn weledol, roedd ganddo'r fantais o fod yr unig brototeip fideo, er bod y cyfrwng hwn yn gofyn am fwy o adnodd golygyddol a thechnegol. Perfformiodd y Llinell Amser Gyd-destunol yn dda ar y cwestiynau ynghylch gosodiad, fformat a llywio, ond (efallai gan ei fod wedi'i ddylunio at ddiben penodol iawn), roedd yn llai llwyddiannus ar fesurau eraill, fel "ymgysylltiol", "defnyddiol", neu "berthnasol". Efallai y byddai'n fwy defnyddiol fel fformat a allai gael ei ddefnyddio fel ategyn i fathau eraill o gynnwys.

Er bod yr erthygl wreiddiol (Newyddion y BBC) wedi cael sgôr dda ar rai mesurau – (y sgôr uchaf ar gyfer nodweddion gweledol er enghraifft), yn y rhan fwyaf o feysydd roedd ei sgôr yn is yn barhaus na'r prototeipiau mwy llwyddiannus – yn enwedig yr Acordion Naratif. Ystyriwyd *ei bod yn llai diddorol a llai dymunol na'r un o'r prototeipiau, gyda defnyddwyr hefyd yn rhoi sgoriau isel ar gyfer iaith a llywio.* Mae canfyddiadau mwy manwl i'w cael yn nhabl 3.

Tabl 3: Crynodeb o argraffiadau'r cyfranogwyr am y prototeipiau a chyfosodiad rhifiadol o'r canfyddiadau.

| | Fersiwn y BBC | (a) Acordion Naratif | (b) Testun Plaen Dramatig | (c) Fideo Anffurfiol | (d) Llinell Amser Gyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|
| Mwyaf DIDDOROL | | BRIG | 3ydd | 2il | |
| Mwyaf DYMUNOL | | 2il | 3ydd | BRIG | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mwyaf GRYMUSOL[12] | BRIG | 3ydd | | 2il | |
| Mwyaf DEFNYDDIOL | 2il | BRIG | | 3ydd | |
| Mwyaf PERTHNASOL | 3ydd | =BRIG | | =BRIG | |
| Sgôr IAITH | | BRIG | 3ydd | 2il | |
| Sgôr GOSODIAD | 3ydd | BRIG | | | 2il |
| Sgôr TÔN | | 2il | | BRIG | |
| Sgôr FFORMAT | 3ydd | BRIG | | | 2il |
| Sgôr LLYWIO | | BRIG | 3ydd | | 2il |
| Sgôr GWELEDOL | BRIG | | | 2il | 3ydd |
| Pa mor YMGYSYLLTIOL (o'i gymharu) | | 3ydd | 2il | BRIG | |
| Pa mor ADDYSGIADOL (o'i gymharu) | | 3ydd | BRIG | 2il | |
| Pa mor DDIDDOROL (o'i gymharu) | | 2il | 3ydd | BRIG | |
| Pa mor BERTHNASOL (o'i gymharu) | | 2il | 3ydd | BRIG | |
| Pa mor DDEFNYDDIOL (o'i gymharu) | | BRIG | | 2il | 3ydd |
| Pa mor GYFEILLGAR (o'i gymharu) | | 2il | 3ydd | BRIG | |
| Mwy o ymdeimlad o sut mae'n effeithio ar benderfyniadau | | 3ydd | 2il | BRIG | |
| Cynnydd mewn gallu i gymryd rhan mewn trafodaeth | 2il | | 3ydd | BRIG | |
| Cynnydd mewn dealltwriaeth o broblemau gyda'r rhwydwaith presennol | | 3ydd | BRIG | 2il | |
| Cynnydd mewn hyder wrth drafod gyda ffrindiau/teulu | 2il | BRIG | 3ydd | | |
| Cynnydd mewn hyder yn deall yr effaith | 2il | BRIG | | 3ydd | |
| Cynnydd mewn hyder wrth benderfynu a yw'n beth da neu ddrwg | 3ydd | | BRIG | 2il | |
| **SGÔR GYFFREDINOL** | **18** | **45** | **22** | **45** | **8** |

*Sylwer: Mae'r sgoriau a ddangosir yn y tabl yn seiliedig ar y cwestiynau a ofynnwyd i'r cyfranogwyr (e.e. pa mor ddiddorol oedd yr erthygl i chi?) er mwyn sgorio'r dimensiynau hyn o "Ardderchog" i "Gwaeth na'r disgwyl" (mwyaf diddorol, dymunol ac ati) neu'r graddau roedden nhw'n cytuno gyda'r datganiadau (e.e. a yw'r erthygl yn fwy ymgysylltiol na ffynonellau newyddion sydd ar gael i chi ar hyn o bryd?) amdanyn nhw (pa mor ymgysylltiol, pa mor addysgiadol ac ati). Roedd 23 categori "sgorio" o'r fath i gyd. Er mwyn gwneud synnwyr o'r canlyniadau, rydyn ni wedi cyfuno'r data wedi'i grynhoi yn nhabl 4. Dadansoddon ni'r sgoriau ar gyfer pob prototeip a chanolbwyntio ar y tri phrototeip a gafodd y sgôr uchaf ym mhob categori.*

Un o'r dadleuon a wneir yn erbyn rhoi mwy o gyd-destun a naratif mewn newyddion yw ei fod yn cymryd gormod o amser a lle. Mae ein prototeipiau'n dangos nad yw hyn yn wir. Mewn gwirionedd, fersiwn y BBC *gymerodd y mwyaf o amser i'r gynulleidfa ei darllen,* gyda 60% o ymatebwyr yr arolwg yn cymryd mwy na thair munud i'w darllen. I'r gwrthwyneb, cafodd y prototeipiau Llinell Amser Gyd-destunol a'r Acordion Naratif eu darllen yn llawer cyflymach (dim ond 30% a 47% o'r darllenwyr gymerodd dros 3 munud). Mae hyn yn dinistrio'r ddadl bod yr arddull pyramid gwrthdro yn ddefnydd effeithiol o'r amser cyfyngedig a roddir i'r rhan fwyaf o straeon. Mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi yn nhabl 4.

Tabl 4: Dadansoddiad o ba mor hir gymerodd darllenwyr ar bob prototeip.

| N | 1035 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Fersiwn y BBC** | **(a) Acordion Naratif** | **(b) Testun Plaen Dramatig** | **(c) Fideo Anffurfiol** | **(d) Llinell Amser Gyd-destunol** |
| **Llai na munud** | 0.9 | 1.5 | 0.8 | 0.7 | 4.3 |
| **1-2 funud** | 12.5 | 19.1 | 9.6 | 2.5 | 33.6 |

[12] Mae'r canlyniad hwn mor anghyson â'r lleill (gwelwyd yr un fersiwn fel y *lleiaf* addysgiadol neu ddefnyddiol, er enghraifft), nes ei fod yn awgrymu efallai nad oedd pobl wedi deall ystyr 'grymusol' (ac efallai'n cysylltu fersiwn glasurol y BBC gyda'r rhai sydd mewn grym).

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2-3 munud** | 26.3 | 32.8 | 29.7 | 11.7 | 32.1 |
| **3-4 munud** | 31.9 | 34.8 | 31.7 | 73.5 | 22.1 |
| **5+ munud** | 28.4 | 12.2 | 28.1 | 11.7 | 7.9 |
| **% a gymerodd fwy na 3 munud** | 60.3 | 47.0 | 59.8 | 85.2 | 30.0 |
| **Cyfanswm** | **100.0* (232)** | **100.0* (131)** | **100.0* (249)** | **100.0* (283)** | **100.0* (140)** |

Yn wir, ar ôl i ni fynd â'r straeon yn ôl i'w cydrannau gwybodaeth allweddol, canfuwyd bod *lletchwithdod y pyramid gwrthdro yn rhwystro rhag gallu adrodd straeon yn effeithiol ac yn gynnil mewn gwirionedd.* Canfuon ni hefyd bod canolbwyntio ar wleidyddion – rhywbeth y mae newyddiadurwyr yn aml yn ei ystyried sy'n ychwanegu drama i stori – yn cymryd amser a lle mewn ffordd nad yw'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn ei gael yn ddiddorol nac yn addysgiadol.

I GRYNHOI, MAE DATBLYGIAD A PHROFION EIN PROTOTEIPIAU YN CYFEIRIO AT FFURFIAU NEWYDD O'R NEWYDDION SYDD NID YN UNIG YN FWY TEBYGOL O DDIWALLU EGWYDDORION SYLFAENOL HYSBYSU'R CYHOEDD, OND MEWN FFYRDD SY'N FWY DIDDOROL AC YMGYSYLLTIOL. MAE'R YMAGWEDD ACORDION NARATIF, YN BENODOL – YN CYFATHREBU MWY O WYBODAETH MEWN LLAI O AMSER, AC YN CAEL SGÔR DDA YN GYSON AR DRAWS BRON POB UN MESURIAD.

## Sylwadau i gloi

*Mae'n amlwg bod angen i newyddiaduraeth ddod o hyd i atebion i'r problemau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac sy'n poenydio'r diwydiant.* Mae ein canfyddiadau'n dangos mai'r lle i ddechrau mynd i'r afael â'r problemau dirfodol yw defnyddio technegau adrodd straeon sy'n blaenoriaethu anghenion dinasyddion. Drwy ganolbwyntio ar gynnwys sy'n wirioneddol ddefnyddiol i ddarllenwyr a gwylwyr, disodli'r strwythur pyramid gwrthdro gyda naratif llinol, rhoi cyd-destun ehangach, ysgrifennu'n fwy perthnasol a thryloyw, rhoi mwy o rym i ddarllenwyr o ran sut maen nhw'n ymgysylltu â straeon, a thrwy adlewyrchu eu hamrywiaeth yn well, mae'n amlwg yn bosib darparu newyddion addysgiadol y mae modd ymddiried ynddo ac sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd o bob demograffeg.

*Mae ein canfyddiadau'n herio'r ddoethineb dybiedig – a'r egwyddor hirsefydlog ym maes newyddiaduraeth – mai'r model pyramid gwrthdro o adrodd straeon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu newyddion.* Er mai'r

BBC oedd y prif ddewis newyddion ar gyfer ein hymatebwyr o bell ffordd[13], perfformiodd fersiwn y BBC yn wael yn gyffredinol. Hyd yn oed yn yr amser tynn oedd ganddon ni i lunio ffurfiau newydd o adrodd straeon, perfformiodd rhai o'n prototeipiau – yn enwedig yr Acordion Naratif – yn *llawer* gwell na'r fersiwn pyramid gwrthdro clasurol, sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd – gan ddarparu mwy o wybodaeth mewn llai o amser. *Mae'r canfyddiadau hyn yn sefydlu achos empirig a damcaniaethol cryf ar gyfer mabwysiadu fformatau amgen ar gyfer darparu newyddion ar-lein a darlledu mewn ffordd effeithlon.*

Mewn tirlun gwleidyddol a chyfryngau dynamig ac ansicr – lle nad yw'r hyn a fu unwaith yn sicr bellach yn wir – ni all newyddiaduraeth barhau i ddal ei gafael ar hen arferion a fformiwlâu. Mae'n rhaid i'r diwydiant fod yn llawer mwy agored i arloesedd wrth adrodd straeon sy'n mynd y tu hwnt i droedio ar ymylon fformatau'n unig. *Yn wir, mae ein hymchwil yn awgrymu mai arloesedd mewn ffurfiau o adrodd straeon (yn hytrach na thechnoleg) sy'n gwneud newyddion ar-lein yn fwy ymgysylltiol, cyfleus a defnyddiol.*

Hyd yma, mae arloesedd ym maes newyddiaduraeth wedi canolbwyntio'n aml ar y "fformat" neu'r cyfrwng yn unig, heb gwestiynu natur sylfaenol y newyddiaduraeth. Dechreuodd yr ymchwil hwn gan ofyn cwestiynau mwy hanfodol am strwythur a diben newyddion. *Mae'r ymagwedd fwy sylfaenol hon tuag at arloesedd yn gofyn am newid dwfn yn y ffordd newyddiadurol o feddwl.* Mae'r enillion posib yn llawer mwy nag unrhyw beth y gellir ei gyflawni drwy addasu rhywfaint ar fformatau neu ymagweddau arwynebol tuag at newid technolegol.

Nid yw hyn i ddweud nad oes gan arloesedd technolegol ran i'w chwarae. Felly, er enghraifft, mae datblygiad 'newyddiaduraeth fodiwlaidd' y BBC – sef torri straeon i lawr yn gydrannau o wybodaeth allweddol – yn addas ar gyfer datblygu ffurfiau newydd o adrodd straeon. Mae hefyd yn bosib dychmygu deallusrwydd artiffisial yn chwarae rhan ddefnyddiol yn y datblygiad hwn. Mae ein hymchwil yn dangos beth fyddai manteision meddwl yn wahanol am hanfodion adrodd straeon newyddion. *Does ganddon ni ddim*

---

[13] Gweler hefyd: https://theconversation.com/coronavirus-bbc-emerges-as-the-uks-clear-favourite-information-source-in-new-audience-survey-141808

*amheuaeth y gellid datblygu'r prototeipiau hyn ymhellach i gynyddu lefelau dealltwriaeth ac ymgysylltiad. Fydd y sefyllfa bresennol, o'i chymharu, ddim ond yn parhau hanes o gwymp mewn ymddiriedaeth, effeithiolrwydd ac effaith newyddiaduraeth sydd er budd y cyhoedd.*



## Tîm ymchwil

Shirish Kulkarni

Monnow Media Ltd, arweinydd prosiect wedi'i ariannu gan Clwstwr – shirish@monnowmedia.com

Dr. Richard Thomas

Adran y Cyfryngau a Chyfathrebu, Prifysgol Abertawe

Dr. Marlen Komorowski

Dadansoddwr Effaith ym Mhrifysgol Caerdydd ac Uwch-ymchwilydd yn imec-SMIT-VUB – komorowskim@caerdydd.ac.uk

Yr Athro Ddr. Justin Lewis

Cyfarwyddwr Clwstwr ac Athro Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol, Prifysgol Caerdydd

## Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gyda chymorth ariannol gan AHRC a Llywodraeth Cymru. Yr awduron sy'n gyfrifol am ei gynnwys.

© 2020 Clwstwr, rhaglen ym Mhrifysgol Caerdydd Cedwir pob hawl.

## Dyfyniad awgrymedig

Kulkarni, S., Thomas, R., Komorowski, M. a Lewis, J. (2021). Briff polisi Clwstwr rhif 2 – Quo Vadis, Newyddiaduraeth? Ffyrdd Newydd o Adrodd Straeon. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr.